
# Y Gist Drysorau

Roderick Hunt     Alex Brychta

Coeden Ddarllen Rhydychen

Tylluanod

DRAKE





Bob wythnos roedd Mrs Jones yn mynd â rhai o'r plant i'r pwll nofio.

Roedd y plant yn nofwyr da ac roedden nhw'n hoffi mynd gyda Mrs Jones.




Roedd y plant yn sefyll prawf nofio.
'Mae'n amser dechrau,' meddai Mrs Jones.
'Pwy sydd eisiau mynd gyntaf?'
'Ni,' meddai Nadim.





Neidiodd Cad, Dids, Wilma a Nadim
i'r pwll.
Roedd y dŵr yn gynnes.
'I ffwrdd â chi,' meddai Mrs Jones.



Roedd rhaid nofio i fyny ac i lawr y pwll.
Roedd rhaid nofio deg hyd.
Wilma oedd y gyntaf i nofio deg hyd a
Cad a Nadim oedd nesaf.



Roedd yn anodd i Dids nofio deg hyd.
'Dere ymlaen, Dids,' meddai Mrs Jones.
'Paid â stopio. Dyma'r hyd olaf.'
Aeth Dids yn ei flaen ac roedd pawb yn falch.




Nesaf roedd rhaid nofio i waelod
y pwll.
Roedd rhaid codi bricsen a nofio
i'r top â hi.







Pasiodd pob un o'r plant y prawf nofio.
Roedd Mrs Jones yn falch iawn.
'Da iawn, bawb,' meddai hi.
Roedd y plant yn falch hefyd.




Dywedodd Cad a Dids wrth Mam a Dad
am y prawf nofio.
'Pasion ni,' medden nhw.
Roedd Mam a Dad yn falch iawn hefyd.



Roedd gan Mam a Dad syrpreis iddyn nhw.
Fedrai Cad a Dids ddim gweld beth oedd
y syrpreis.
'Beth yw e?' gofynnodd Cad.



‘Tanc pysgod,’ meddai Cad.
‘Am syrpreis hyfryd!’
Edrychodd pawb ar y pysgod
yn nofio o gwmpas yn y tanc.




‘Mae lle i ragor o bysgod,’ meddai
Dad.
‘Gallwn gael rhai y tro nesaf yr
awn i siopa.’




Y diwrnod wedyn aethon nhw i siopa.
Aeth Dad â nhw i siop oedd yn gwerthu pysgod.
'Am siop hyfryd!' meddai Cad.
'Edrychwch ar y pysgod i gyd.'




Roedd yna bysgod mawr a physgod bach.
Roedd Onw yn hoffi'r pysgod mawr mewn tanc.
'Paid â tharo'r gwydr,' meddai Dad.
'Dyw'r pysgod ddim yn ei hoffi.'



Rhoddodd Dad ragor o bysgod yn y tanc.
Rhoddodd greigiau yn y gwaelod.
Yn ymyl y creigiau rhoddodd long
a blwch bach.



Daeth Wilma a Nadim i weld y
tanc pysgod.
'Mae'n edrych yn hyfryd,' meddai Wilma.
'Hoffwn i nofio i mewn yn fan'na.'



Aethon nhw i chwarae yn ystafell Cad.
Rhedodd Dids i mewn gyda'r allwedd hud.
Roedd yr allwedd yn disgleirio.
'Mae'n bryd cael antur,' meddai Cad.





Dechreuodd yr hud weithio.
Aeth â'r plant ar antur newydd.
Y tro hwn roedd yn fath gwahanol o antur.



Aeth yr hud â nhw dan y dŵr.
Roedd mygydau a fflipe ri a thanciau
aer gan y plant.
Gallen nhw nofio dan y dŵr.






Welodd y plant erioed gynifer o bysgod.
Roedden nhw o liwiau gwahanol.
'Mae hyn yn well na'r pwll,' meddyliodd Dids.
'Rwy'n teimlo fel pysgodyn,' meddyliodd Wilma.



Roedd y plant wrth eu boddau yn nofio dan y
dŵr.
Roedd yn hyfryd gweld y pysgod i gyd
a nofio gyda nhw.



Nofiodd Dids a Nadim i'r gwaelod a
chodi cragen fawr.
Edrychodd Cad ar slefren fôr ond
nofiodd hi ddim yn rhy agos.



Gwelson nhw long dan y dŵr.
Hen long oedd hi, oedd wedi bod dan y dŵr
ers amser hir.



Nofion nhw at y llong.
Doedd Wilma ddim am nofio'n rhy agos ati.
Edrychai'n beryglus.




Gwelson nhw octopws.
O na! Roedd yn eistedd ar gist.
Fedren nhw ddim edrych y tu mewn i'r gist
ag octopws yn eistedd ar y clawr.






Chwython nhw swigod at yr octopws.
Doedd yr octopws ddim yn hoffi'r swigod
felly nofiodd i ffwrdd.
'Da iawn!' meddyliodd y plant.
'Nawr gallwn ni edrych y tu mewn.'



Agorodd y plant y gist ac edrych
y tu mewn.
Cist drysorau oedd hi ac roedd
yn llawn aur.




Gwthiodd Cad a Wilma y gist drosodd a
disgynnodd yr aur i gyd allan.
Cododd Nadim neclis a chododd
Cad gwpan aur.



Roedd Cad a Nadim yn brysur yn
edrych ar y trysor.
Welson nhw ddim beth welodd Dids a Wilma.
Roedd siarc yn dod.



Fedrai Dids a Wilma ddim dweud wrth
Cad a Nadim.
Tynnon nhw'r ddau i ffwrdd a phwyntio
at y siarc.



Roedd y plant yn ofnus.

Nofion nhw a nofion nhw ond nofiodd y siarc
ar eu holau nhw.

Yna dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.






Aeth yr allwedd hud â nhw allan
o'r antur.

'Waw! Am antur!' meddai Cad.

'Roedd y gist drysorau fel yr un
yn ein tanc pysgod.'



Rhedodd y plant i edrych
yn y tanc pysgod.
'Edrychwch, dyna'r trysor,' meddai Dids.
'Sut gyrhaeddodd e fan'na?' gofynnodd Nadim.
'Hud a lledrith!' meddai Cad.



Argraffwyd yng Nghymru

# 6 Y Gist Drysorau

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Tylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafforddd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-253-2
9 780861 742530

ISBN 0 86 174253 2

DRAKE